# Papur Elim, Heol Awst a'r Priordy

GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN



**CWSG CYN DAW HEROD Â'I GLEDD AR EI GLUN,**
**CWSG, FE GEI DDIGON O FOD AR DDI-HUN,**
**CWSG CYN DAW'R GROES I'TH RAN:**
**CWSG, CWSG, F'ANWYLYD BACH,**
**CWSG NES DAW'R BORE IACH,**
**CWSG, CWSG, CWSG".**

**Hwiangerdd Mair - Nantlais**
***Caneuon Ffydd: 471***

***Gweler yr erthygl ar Nantlais y tu mewn***

**Rhifyn 4**
**PAPUR RHAGFYR 2024**

# Gair gan ein Gweinidog

## Procio'r Cydwybod adeg y Nadolig

Nadolig Llawen i chi i gyd!

***DEWCH*** gyda mi i Bensylvania, Unol Daleithiau America ac i bentref bach arbennig o'r enw Bryn Mawr. Enwyd y pentref hwn ar ôl ystâd ger Dolgellau a oedd yn perthyn i'r Crynwr Rowland Ellis a ymfudodd i Bensylfania yn 1686 er mwyn ffoi rhag erledigaeth crefyddol.



Ym Mryn Mawr ar 19 Tachwedd 2024 y bu farw un o bregethwyr mwyaf dylanwadol ein cyfnod, sef Tony Campolo. Ysgolhaig, arwr dewr, pregethwr ysbrydoledig, a wnaeth gyfraniad aruthrol yn herio ac yn procio cydwybod cymdeithasol yr eglwys am faterion cyfiawnder.

**Cydwybod**
Yn fwyaf adnabyddus am ei safbwyntiau blaengar o fewn y gymuned Gristnogol, roedd Campolo yn eiriolwr angerddol dros y rhai ymylol a difreintiedig gan bwysleisio byw dysgeidiaeth Iesu. Daeth yn llais blaenllaw i'r rhai a gredai y dylai ffydd ymwneud â mwy nag addoli yn unig - dylai hefyd ysbrydoli gweithredu. Bu Campolo yn sicr yn un a brociodd gydwybod yr eglwys.

Beth yw cydywybod? Ymdeimlad (neu lais) y tu mewn i ni sy'n cyfleu beth sy'n gywir neu'n anghywir ar gyfer ymddygiad person – neu ymddygiad eglwys yn y cyd-destun hwn.

**Cydwybod Cymdeithasol**
Rydym ar drothwy'r Nadolig a'r byd masnach wedi bod yn paratoi ar gyfer yr Ŵyl ers misoedd, a hynny ar ddiwedd blwyddyn sydd wedi bod yn un hynod o heriol mewn sawl ffordd. Mae cynnydd mewn costau byw a chynnydd mewn tlodi lleol wedi gorfodi miliynau o bobl i wneud penderfyniadau amhosib. Effeithiwyd ar bawb o bob oed, gan gofio nad cymwynas o bell ffordd i'n pensiwynwyr oedd torri taliad tanwydd y gaeaf.

Nid sefyllfa sy'n effeithio ar gymunedau ymhell o adref yw hwn. Mae'n argyfwng sydd ar ein stepen drws yma yn Sir Gâr.

Dosbarthwyd 9,300 o anrhegion Nadolig i 1,550 o blant yr adeg hon y llynedd drwy Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Gâr. Rwy'n ysgrifennu'r geiriau hyn ganol Tachwedd, a hyd yn hyn mae Banc Bwyd Caerfyrddin eisioes wedi cwrdd ag angen 1199 o oedolion a 760 o blant eleni, gan ddisgwyl cynnydd mawr yn yr angen yn ystod Rhagfyr gyda'r Nadolig a gwyliau ysgol. Diolch am bob cefnogaeth i'r naill apêl a'r llall oddi wrth eglwysi Gafalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin.

**Procio'r Cydwybod**

Yng nghanol ein paratoadau a'n dathliadau, y goleuadau neon yn ein dallu, a'r gerddoriaeth Nadoligaidd yn ein byddaru, a deimlwn y llais bach y tu mewn i ni yn ein hatgoffa bod rhywbeth o'i le yn ein cymuned ac yn ein byd?

Beth am gymryd amser i oedi am funud neu ddwy bob dydd i wrando ar y llais bach hwnnw sydd ynom, yn procio'n cydwybod, a'i glywed neu ei deimlo, ac ymateb iddo drwy estyn llaw i gwrdd ag angen arall.



***TYMOR*** o ewyllys da. Dyna'r yw'r Nadolig.

**Gweddïwn**

**O Dad, y Nadolig hwn, goleua'r corneli hynny sydd wedi tywyllu ym mywydau rhai oherwydd afiechyd, gofid, siom, methiant a chaledi.**

**Ond hyd yn oed yn y tywyllwch mwyaf,**
**diolch bod goleuni Crist yn parhau i lewyrchu.**

***'Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.'***

**Amen**



**Nadolig Llawen a Bendithiol i aelodau a chyfeillion Eglwysi Elim, Heol Awst a'r Priordy oddi wrth Beti-Wyn, Elin a Sara**

## DARLLENIADUR


| Mis Rhagfyr | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1<br>Adfent 1 | Salm 93 |
| Wythnos 2<br>Adfent 2 | Luc 3: 1-6 |
| Wythnos 3 | Luc 3: 7-18 |
| Wythnos 4 | Luc 1: 39-55 |
| Noswyl Nadolig | Ioan 1: 1-14 |
| Dydd Nadolig | Luc 2: 1-20 |
| Wythnos 5 | Luc 2: 41-52 |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**DYDD GWEDDI'R BYD**
**ac**
**ALUN AC OLGA WILLIAMS**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***



**YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

**Gofynnwyd i rai o aelodau'r Ofalaeth ateb y cwestiwn *Beth mae'r Nadolig yn ei olygu i chi?* - a hynny'n weddol gryno. Diolch iddynt am fod mor barod i gyfrannu. Dyma'u hatebion:**



**BRIAN WALTERS (E)**



Byddai Mam yn dechrau paratoi ar gyfer y Nadolig yn yr Hydref drwy wneud pwdin Nadolig. Byddai'n defnyddio'r boeler (peiriant cynhesu'r dŵr i olchi'r peiriant godro) i stemio'r pwdin Nadolig. Byddai'n gwneud digon i bara am sawl mis ar ôl y Nadolig! Wythnos cyn y Nadolig, byddai Dad yn torri brigau oddi ar y goeden Celyn yn cae y tu ôl i'r tŷ er mwyn addurno'r tŷ. Ar ddydd Nadolig byddai Dad a Mam yn codi'n fore i odro a bwydo'r gwartheg a Mam yn cwcan y cyw iâr. Buon ni'n cael cyw iâr ar ddechrau fy mhlentyndod cyn cael twrci yn ddiweddarach. Mam oedd yn coginio'r cyfan – ac roedd y rhan fwyaf o'r cynnyrch yn dod o'n fferm ni. Fel plentyn, roeddwn yn edrych 'mlan at y Parti Nadolig yn y Festri yn Elim. A'r uchafbwynt oedd cael jeli, blomonj, lot o gacs ac adloniant oddi wrth y plant. Un tro 'on i fod adrodd rhywbeth digri, ond 'on i wedi bod yn rhedeg rownd y fynwent a'r capel cymaint – anghofiais eiriau'r adroddiad a ches i row!! Wedyn, roedd Siôn Corn yn dod â sach fawr yn llawn anrhegion o Woolworths. Roedd pawb yn cael anrheg tebyg i afal, tanjerîn neu losin. Un tro, gwnaeth Siôn Corn roi cusan ar foch gwraig y gweinidog – ath hi'n goch fel tomato a phawb yn cael hwyl! Un tro ar ôl y Nadolig ro'dd Dydd Calan ar Ddydd Mercher, felly es i i'r mart gyda Dad a bob tro ro'dd Dad yn mynd i siarad gyda rhywun byddwn i'n dweud "Blwyddyn Newydd Dda". Byddwn i'n cael calennig gyda'r rhan fwyaf ond ro'dd un ffermwr yn un tynn a 'na i gyd wnaeth e o'dd chwarae gyda'r arian yn ei boced a rhoi dim byd i fi!

**CARYS HOPLEY (HA)**



Wrth feddwl am adeg y Nadolig, mae gennyf atgofion melys iawn o gymryd rhan ym mhasiant Nadolig Ysgol Sul Heol Awst. Ar ddiwrnod y pasiant, roedd fy mrawd, fy chwiorydd a finnau wrthi'n paratoi'n gyffrous yn ein gwisgoedd wedi'u creu'n gariadus gan Granny. Yna, roedd y perfformiad mawr yn cychwyn ar lwyfan y festri. Roedd yr holl waith paratoi yn werth chweil wrth i ni fwynhau rhannu gwir ystyr y Nadolig o flaen cynulleidfa o wynebau llawen. Wrth gwrs, rhaid hefyd sôn am y parti Nadolig a oedd yn dilyn, gyda chacennau a'r dyn pwysig yn ymddangos gydag anrhegion!

## NIA EVANS (E)



Atgofion hyfryd am Nadolig yn y 70au yng nghartref John a Mama, gyda 22 aelod o'r teulu yn y byngalo bach a phawb â'i jobyn ei hun am y diwrnod. Mama,a fyddai'n gyfrifol am y twrci, a chwiorydd mam y llysiau. Fi a'm chawer yn gweini a Mam, a dim ond Mam a fyddai'n paratoi'r saws brandi gorau'r erioed! Y gyfrinach? Bod yn hael iawn gyda'r brandi! Wrth i bawb aros yn eiddgar i agor yr anrhegion o dan y goeden roedd Mama'n mynnu nad oedd neb yn cael agor dim tan ar ôl Araith y Frenhines. Byddem yn cadw llygad barcud ar Mama tan iddi gwympo i gysgu (yr arfer bob blwyddyn!) ac ar ôl deffro, roedd y llawr yn llawn papur lapio. Pob blwyddyn, addawai 'byth eto,' ond roeddem i gyd yn gwybod beth fyddai'n digwydd!



## DAVE THOMAS (HA)

Y cof cyntaf sy gyda fi o'r Nadolig yw'r flwyddyn 1947 pan oeddwn i'n bedair a hanner. Cofio hosan fawr yn cynnwys pethau fel oren a phomgranad - ac wrth gwrs roedd rhaid cael pin!! Anrheg hefyd wedi'i wneud o bren gan fy nhad. Y flwyddyn ganlynol dw i'n cofio dysgu am y Baban Iesu yn swyddogol yn yr Ysgol Sul. A chofio rhoi croeso mawr i Santa ar y Sul cyn y Nadolig a derbyn anrheg bach a Rwdolff yn pori'r fynwent, mae'n debyg – ond welodd neb hyn! Yn yr wythdegau cofio'r Plygain cynnar cynnar yng Nghapel Heol Awst am 6 ar Fore'r Nadolig. Doeddwn i ddim wedi dihuno'n iawn! Profiad bythgofiadwy oedd cwrdd â'm hannwyl wraig ar Ddydd Nadolig 1969. Y peth mwyaf trist i mi yw'r ffaith bod ystyr y Nadolig wedi'i golli gan y mwyafrif o bobl. Trist iawn.

## MYFANWY JONES (P)



Pan on i'n fach, roedden ni'n treulio'r rhan fwyaf o'n Nadoligau yn yr Almaen; yr eglwys yn Gatholig a'r cinio ar noswyl Nadolig! Yna, roedd Nadoligau yng Nghaerfyrddin yn llawn sioeau a phartïon Nadolig, a chyffro Siôn Corn a'i holl ryfeddod. Ac yna'r daith flynyddol i gael cinio Nadolig yn Lledrod - yn 24 ohonon ni o gylch 2 fwrdd hir. Rydyn ni nawr mewn cyfnod newydd gyda llond lle o oedolion ifanc yn y teulu, a Gwenlli nôl gartre am y tro cyntaf ers 3 mis. Ond, mae 'na rai pethau'n aros yr un ym mhob cyfnod; coeden go iawn, gwasanaeth, anrhegion, twrci, a llawer iawn o bobl swnllyd a llawen!

## EIRLYS THOMAS (HA)…



Mae cof pentyn Nadolig yn tyfu lan yn Llandudoch yn dal yn glir yn fy meddwl a'r atgofion yn llifo nôl pob Nadolig. Dadi, fel pobydd y pentref, yn hynod o brysur wedi pobi cannoedd o fins peis ac felly roedd codi ar fore Nadolig ar gyfer gwasaneth y Plygain yn yr eglwys am 6 o'r gloch yn ddechre hwyr i'r dydd iddo fe! I mewn i'r eglwys wrth olau cannwyll a gwir arwyddocâd y Nadolig, pen-blwydd Iesu Grist yn amlwg trwy'r gwasanaeth. Ie, diwrnod i ddathlu a dod ynghyd. Wedi'r oedfa galw 'da Mrs Phillips Craigfryn am goffi (a rum i dadi) a chyrradd adre i arogl y twrci a'r tŷ eisioes wedi'i addurno o gornel i gornel. Ymlacio trwy'r prynhawn ac yn yr hwyr, fy rhieni, Keith a finne yn mynd i dŷ brawd fy nhad, a'i ddwy chwaer a'r plant i gymdeithasu a chanu o amgylch y piano. Holy City oedd party piece fy nhad a Telephone to Glory! Ie, diwrnod o chwerthin a naws bendigedig o'r teulu gyda'n gilydd mewn undod. Yn sicr, amser o gariad ydoedd.

## PAT JONES (P)...



Mae'r Nadolig yn golygu nifer o wahanol bethau i mi. Byddaf yn dechrau paratoi ynghanol mis Tachwedd. Gwneud y pwdin a'r gacen 'Dolig a chynnal ymarferion carolau ar gyfer cyngherddau a gwasanaethau plant ac oedolion. Yna ar ddechrau mis Rhagfyr gweld wynebau a chwilfrydedd yr wyrion a'r wyresau pan fo'r "elf" yn cyrraedd gyda'i holl anturiaethau, ac wrth gwrs Diwrnod 'Dolig ei hun gyda holl firi'r dydd, a'r teulu i gyd yn dod ynghyd. Ond y peth  pwysica -  dathlu geni Crist a chofio  beth yw gwir ystyr y Nadolig.

**TASG I CHI DROS Y NADOLIG**

**Tybed a allech chi feddwl am enw addas a slic ar gyfer ein Papur?**

**Rhowch gynnig arni a gadewch i ni wybod!!!**



# NADOLIG CATRIN FINCH



**Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

Hefo'r teulu! Fel arfer 'da ni gartre ym Mhentyrch, ac mae ein rhieni'n dod atom i ymuno hefo ni a'r plant. Canu Carolau, agor presantau, bwyta (a mynd am dro bach ar ei ôl), chwarae gemau, a falle ffilm yn hwyrach. Dw i wastad yn mwynhau diwrnod Nadolig!

**Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

**Cwrs Cyntaf**

Pysgod. Yn ddiweddar 'da ni 'di dechrau cael plât bwyd môr yn cynnwys pethe blasus fel cranc, cimwch a macrell, hefo chydig o fara neu salad.

**Ail Gwrs**

Dw i ddim yn gogydd, felly 'sous-chef' fel arfer ydw i. 'Da ni'n draddodiadol iawn ac yn hoffi ein twrci hefo'r trimins. Mae Dad wastad yn neud y stwffin, a finnau yn canolbwyntio ar rostio'r tatws!

**Trydydd Cwrs**

Pwdin Nadolig …. hefo llwyaid ychwanegol o fenyn brandi Mam am fesur da!

**Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?**

Cefais hen gramaffon gan Mam flynydde yn ôl, hefo bocs o 45's. Dim byd yn well na gwrando ar hen recordiau.

**Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?**

Carol of the Bells, yn enwedig fersiwn y "Mormon Tabernacl Choir'. Lleisiau, cerddorfa, clychau ac alaw hudolus. Carolau ydy'r peth gorau am gyfnod y Nadolig!

**Ein Papur yn cofio**

**Nantlais**

**1874 – 1959**



Mae Nantlais wedi cyffwrdd â bywyd llawer ohonom yng Nghymru – beth bynnag yw'n gwreiddiau Cristnogol a'n henwad crefyddol.  Mae'n awdur rhai o eiriau mwyaf cyfarwydd yr iaith Gymraeg - geiriau y mae cenedlaethau o blant ac oedolion wedi'u hadrodd a'u canu ar hyd a lled Cymru.

Meddyliwch, er enghraifft, am y canlynol:

- Iesu cofia'r plant
- Beth yw mesur glas y nen?
- Plant bach Iesu Grist ydym ni bob un
- Uno wnawn a'r nefol gôr
- O'r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof i,
- Rho imi nerth i wneud fy rhan,
- Fy enaid bendithia yr Arglwydd,

A rhigwm fel:

- Tu ôl i'r dorth mae'r blawd

A chân draddodiadol fel:

- Mynd drot drot ar y gaseg wen..

Ganed Nanlais **30 Rhagfyr 1874, cant a hanner o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn**, yn Llawrcwrt, bwthyn ym Mhencader - yr olaf o ddeg o blant. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol y Bwrdd, New Inn, Ysgol Ramadeg Castellnewydd Emlyn a Choleg Trefeca.  Ym 1900 enillodd Gadair Eisteddfod Ammanford (Nid oedd yr enw Rhydaman yn bod bryd hynny). Ychydig o wythnosau wedyn dechreuodd yn Weinidog ar Gapel Bethany ar Sul cyntaf Awst 1900. Cafodd ei ordeinio'r flwyddyn ganlynol yn Heol Dŵr, Caerfyrddin.  Cafwyd adeilad newydd ym

Methany ar 31 Hydref 1929. Yn ddiweddarach y Cymreigiwyd yr enw gwreiddiol i Bethani.  Ymddeolodd Nantlais ar 27 Gorffennaf 1944.  Bu felly'n Weinidog ym Methani am 44 o flynyddoedd.

Mae'n drist nodi i Gapel Bethani gau y llynedd am fod nifer yr aelodau wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.  Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif roedd yn gapel hynod boblogaidd - gyda nifer yr aelodau yn treblu wedi i Nantlais gael ei ddylanwadu'n fawr gan Ddiwygiad 1904.

Cafodd Nantlais y wobr gyntaf am gyfres o delynegion yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1902. Derbyniodd radd MA Prifysgol Cymru er anrhydedd ym 1958. Golygodd sawl cylchgrawn – Yr Efengylydd, Y Lladmerydd a Thrysorfa'r Plant. Cyhoeddodd dwy gyfrol o delynegion – Murmuron y Nant (1898) a Murmuron Newydd (1926) a chasgliad o emynau - Emynau'r Daith (1949). Aeth ar daith efengylu i Batagonia ym 1938.

Priododd Alice M Jones o Gynwyl Elfed ym 1902 a chael pump o blant ond bu farw hithau ym 1911 pan oedd yr ieuengaf, Rheinallt (Prifathro Coleg Diwinyddol Aberystwyth gynt) yn ddim ond pum wythnos oed. Ailbriododd ag Annie Price. Bu farw 18 Mehefin 1959 yn ei gartref yn Ffordd Newydd, Rhydaman.  Ei air olaf oedd Shalom. Mae wedi'i gladdu wrth y fynedfa i Gapel Bethani. Gosdwyd plac i gofio W Nantlais Williams ar fur Bethani. Cyhoeddwyd cyfrol o'i atgofion 'O Gopa Bryn Nebo' yn 1967.

Mae ganddo 17 o emynau yn Caneuon Ffydd (pump ohonynt yn gyfieithiadau).

A hithau'n gyfnod y Nadolig beth am ddyfynnu un o garolau adnabyddus Nantlais, Suai'r Gwynt, i orffen. Mae stori hyfryd am darddiad y garol hon. Roedd Mari Llwyd, merch y Parchedig Gareth Davies (un ymhlith y rhai a olynodd Nantlais ym Methani), wedi clywed nifer o hanesion am yr hyn oedd yn digwydd yn y capel gan fod ei mam, Eunice, wedi'i magu yno. Meddai: 'Ro'dd ganddi stori hyfryd am fod yn yr Ysgol Sul wythnosau cyn y Nadolig a'i hathrawes yn gofyn i Nantlais a oedd ganddo rywbeth i'r plant ei ganu yn y gwasanaeth Nadolig. 'Gadewch e gyda fi', medde fe a'r Sul canlynol dyma fe'n dod nôl atyn nhw â'r garol 'Suai'r Gwynt' - felly o'dd Mam wastad yn dweud bod hi a'i ffrindiau ymhlith y criw cyntaf i ganu'r gerdd hyfryd honno.'

Suai'r gwynt, suai'r gwynt
wrth fyned heibio i'r drws;
a Mair ar ei gwely gwair
wyliai ei baban tlws:

syllai yn ddwys yn ei ŵyneb llon,
gwasgai Waredwr y byd at ei bron,
canai ddiddanol gân:
"Cwsg, cwsg, f'anwylyd bach,
cwsg nes daw'r bore iach,
cwsg, cwsg, cwsg.

"Cwsg am dro, cwsg am dro
cyn daw'r bugeiliaid hyn;
a dod, dod i seinio clod,
wele mae'r doethion syn:
cwsg cyn daw Herod â'i gledd ar ei glun,
cwsg, fe gei ddigon o fod ar ddi-hun,
cwsg cyn daw'r groes i'th ran:
cwsg, cwsg, f'anwylyd bach,
cwsg nes daw'r bore iach,
cwsg, cwsg, cwsg".

## CAMP MELERI




Cododd Meleri Llwyd-O'Leary swm o £1,058 tuag at Uned Cemotherapi Dydd Ysbyty Glangwili Caerfyrddin er cof am ein ffrind Siân Axford, drwy gerdded 100 milltir yn ystod mis Gorffennaf. Diolch i bawb a wnaeth gefnogi.

# *Stampiau Cristnogol - Nadolig 2024*




Mae rhai o’r nifer o gadeirlannau mawreddog yn y Deyrnas Unedig i’w gweld ar stampiau Nadolig y Post Brenhinol ar gyfer 2024 – y pump yn y gyfres yw: Caeredin; Bangor, Armagh; Lerpwl; a San Steffan.

Cafodd y stampiau eu darlunio gan yr artist o Penzance, Judy Hoel. Mae ei phaentiadau poblogaidd wedi cael eu gwerthu ledled y byd dros y 50 mlynedd diwethaf.



**Y dyddiadau postio olaf a argymhellir er mwyn i bost gyrraedd mewn pryd ar gyfer y Nadolig yw:**

**Dydd Mercher 18 Rhagfyr 2024 ar gyfer post Ail Ddosbarth**
**a**
**Dydd Gwener 20 Rhagfyr 2024 ar gyfer post Dosbarth Cyntaf**

**Nadolig 1914**

***(bu sôn am gêm ffwtbol rhwng rhai o filwyr y 'Western Front')***



**Yn nhir neb eu hwynebau a gosteg**
**cae gwastad eu chwarae,**
**yn y mwd a'r meirwon mae**
**un gwawl ymysg eu goliau.**

**Aled Evans**





## CORNEL
## CODI GWÊN!

Dywedodd aelod o'r eglwys wrth y gweinidog: *'Wn ni ddim beth sy'n bod arnaf wir, rwy'n dechrau dychmygu fy mod yn gloch Nadolig.'*

Atebodd y gweinidog '*triwch weddïo ddwywaith y dydd ac os nad yw hynny'n gweithio rhowch ganiad i fi.' (!)*

# I ddathlu pen-blwydd Rhian yn 80

Mis Tachwedd a mis geni'r haul ei hun,
yr haul sy'n drech na chwmwl, gwynt a glaw,
yr haul all gynnau'r dydd â dim ond un
pelydryn aur yn rhodd o ddor ei law;
gall gynnau hefyd lantern wen y nos
ag un cyffyrddiad - dim ond dweud 'ffarwél' -
ac wele ddeffro gwên y lleuad dlos
i'n cadw'n ddiddan nes daw'r wawr mewn sbel.
A dyna pam mae'r wlad yn dod ynghyd
i ddiolch am gymwynas hardda'r fro:
y golau dry ein gaea'n haf o hyd
a llenwi'n byd â lliw enfysau'r co',
y gannwyll sy'n llewyrchu yn ddi-ffael,
yr un a'i henw'n Rhian, Merch yr Haul.

**Mererid Hopwood**
**Archdderwydd Cymru**

**OEDFA ADFENT CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Iau – 5 Rhagfyr – 2.30 o'r gloch**
***gyda'n***
**Gweinidog**
**Croeso i bawb**




**GWASANAETH PLYGAIN MERCHED Y WAWR**
**Nos Sul, 8 Rhagfyr – 7.30**
**Capel Heol Awst**
**Capeli / Eglwysi a Mudiadau Lleol yn cymryd rhan**
**Rhaglen: £2 Yr elw at Ambiwlans Awyr Cymru**

## Ethan a Iestyn Woods…

### Ymweliad PIP



**Y bore 'ma aeth criw bach ohonom o PIP i ymweld â Pharlwr y Maer.**

**Doedden ni ddim yn siŵr beth i'w ddisgwyl a dweud y gwir a'r peth cyntaf i'n taro wrth gerdded i mewn i'r parlwr oedd moethusrwydd yr ystafell.**

**Ond nid un ystafell yn unig a welsom. Yn yr ystafell drws nesaf mae'r waliau wedi eu haddurno gyda lluniau cyn-ddeiliaid y swydd. Roedd hyn yn ein hatgoffa o'r ysgol Hogwarts yn llyfrau Harri Potter lle mae cyn-athrawon yr ysgol yn dal i fyw yn y fframiau o gwmpas yr ysgol. Ni welais un o'r cyn-meiri'n symud ond braf oedd gweld nifer o wynebau cyfarwydd ymhlith y gwylwyr mud!**

**Rydyn ni'n tueddu i gysylltu Maer y Dref gyda'r gadwyn grand ac mi fuon yn ddigon ffodus i gael cyfle i dreial y gadwyn aur o dan lygaid gwyliadwrus y Maer a'i ragflaenwyr. Mae enwau rhai o'r meiri blaenorol wedi'u cerfio arno.**

**Llai adnabyddus i ni oedd Cleddyf y Wlad. Mae'n debyg taw Harri'r VIII roddodd y fraint i'r Maer gael Cludwr arbennig i gludo'r gleddyf o'i flaen. Caerfyrddin oedd yr unig dref yng Nghymru i fwynhau'r fraint hon. Doedden ni ddim yn disgwyl bod angen hawl i wneud y fath beth - mae'n amlwg bod pethau'n wahanol iawn yn y 1500'au! Mae'r cleddyf yn hardd iawn a syndod oedd darganfod iddi gael ei llunio yn Sbaen yn y dref sydd â hanes hir o gynhyrchu arfau llafnog:Toledo.**

**Dysgon ni lawer ar ein hymweliad ac rydyn yn ddiolchgar i'n Maer, Emlyn Schiavone, am y croeso ac am sgwrs ddiddorol ac i Meleri O'Leary am drefnu.**

## AELOD NEWYDD YN Y PRIORDY



Derbyniwyd Pat Jones yn aelod yn y Priordy ar Fore Sul
3 Tachwedd 2024.

**RHAGHYSBYSIAD**
**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH**
**NOS SUL, 28 MEDI 2025 am 5**

**Capel Heol Awst Caerfyrddin SA31 3AP**

**Arweinydd**

**Pat Jones, Caerfyrddin**

**Rihyrsals ar Nos Sul am 5 yng Nghapel y Priordy - 13 Gorffennaf 2025, yng Nghapel y Tabernacl – 7 Medi 2025 ac yng Nghapel Heol Awst – 14 Medi 2025 (Prif Rihyrsal yng ngofal yr Arweinydd)**

**GAIR O DDIOLCH**

**Dymuna Nansi Hayes ddiolch yn fawr am yr holl gardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd dros adeg ei phen-blwydd yn ddiweddar. Na phoenwch chi ferched glân Caerfyrddin - os ydych yn dringo tua'r 90 oed - fe gewch chi lot o sylw ac fe gewch eich sbwylio'n rhacs!!**



# CWIS Y GWYRTHIAU

## Tybed pa mor gyfarwydd ydych chi â’r gwyrthiau yn fersiwn beibl.net?!!!!

## Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!

### Gwyrth Geni Iesu y Meseia



**Mathew 1: 18-25**

Dyma ddigwyddodd pan gafodd Iesu y ------ ei eni: Roedd ei fam, Mair, wedi cael ei haddo i fod yn ----- i Joseff. Ond cyn iddyn nhw briodi a chael rhyw, dyma nhw'n darganfod fod yr Ysbryd ---- wedi ei gwneud hi'n feichiog. Roedd Joseff, oedd yn mynd i'w phriodi, yn ddyn da a charedig. Doedd e ddim eisiau gwneud ------- ohoni a'i chyhuddo hi'n gyhoeddus, felly roedd yn ystyried yn dawel fach i ganslo'r briodas.

Roedd wedi bod yn meddwl am hyn pan gafodd --------: gwelodd angel Duw yn dod ato a dweud wrtho, “Joseff fab Dafydd, paid petruso mynd â Mair adre i fod yn wraig i ti, am mai'r Ysbryd Glân sydd wedi gwneud iddi feichiogi. ------fydd hi'n ei gael. Rwyt i roi'r enw ---- iddo, am mai fe fydd yn achub ei bobl o'u pechodau.

Digwyddodd hyn er mwyn i beth ddwedodd Duw drwy ei broffwyd ddod yn wir: “Edrychwch! Bydd merch ifanc sy'n ----- yn feichiog ac yn cael mab. Bydd y plentyn yn cael ei alw yn --------” (Ystyr Immanuel ydy “Mae Duw gyda ni.

Pan ------ Joseff, gwnaeth beth roedd angel Duw wedi ei ddweud wrtho. Priododd Mair, ond chafodd e ddim rhyw hefo hi nes i'w mab gael ei eni. A rhoddodd yr enw Iesu iddo.

**Atebion: Tudalen 31**

**CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN**

**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**



**Eglwys Gadeirlan y Santes Fair, Sydney, adeg y Nadolig**

**Saif Eglwys Gadeiriol y Santes Fair ar safle'r Capel Catholig cyntaf yn Awstralia. Wedi'i hadeiladu mewn tywodfaen lleol, mae arddull Adfywiad Gothig ei phensaernïaeth yn atgoffa rhywun o gadeirlannau canoloesol mawr Ewrop. Mae’r Nadolig yn ddigwyddiad arbennig yn yr eglwys hon ac yn rhan o draddodiad Sydney.  Mae’n denu cannoedd os nad miloedd o deuluoedd, plant, grwpiau cymunedol a thwristiaid i fwynhau goleuadau a synnau’r Nadolig – a hynny’n rhad ac am ddim. Mae’n achlysur sy’n digwydd bob mis Rhagfyr ar gyfer pawb, beth bynnag yw eu ffydd a’u cefndir diwylliannol, gyda’r neges o dangnefedd y Nadolig yn atsain dros y gymuned gyfan.**



**DIOLCH YN FAWR**

**Diolch i Beti-Wyn, Meleri Llwyd O’Leary ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau’r mis hwn.**

## YSGOL SUL Y PRIORDY'N PARATOI TORCH O FLODAU PABIS GWYN AR SUL Y COFIO







# Ifanc@Gofalaeth




## Nadolig Llawen i bawb






Beth am ddod i'r Gwasanaeth bore Nadolig am 9.00 o'r gloch.

Gwasanaeth byr a chartrefol.

Os yw Santa wedi galw, dewch ag un o'ch anrhegion Nadolig i'r gwasanaeth!






# Chwilotair Nadolig

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | E | O | J | S | E | G | B | D | A | N | G | I | T |
| L | D | J | O | T | E | T | R | A | E | F | E | G | O |
| B | S | O | F | G | R | I | E | J | B | N | J | F | I |
| H | M | S | E | T | H | A | O | A | O | A | H | E | B |
| E | N | E | O | T | E | R | B | U | A | L | N | T | N |
| R | A | F | U | L | H | T | A | D | H | G | F | B | N |
| O | U | F | O | J | R | I | E | P | R | E | S | E | B |
| D | I | L | E | G | N | A | O | E | E | P | O | H | I |
| G | H | H | H | O | R | O | A | N | R | H | E | G | B |
| M | A | I | R | T | A | E | R | P | O | A | R | A | U |
| R | B | H | L | M | L | H | O | E | L | I | H | H | G |
| O | I | L | M | E | H | E | L | H | T | E | B | O | A |
| R | E | A | R | H | T | S | E | R | E | N | S | A | I |
| E | A | A | H | O | H | D | H | E | N | D | P | G | L |

MAIR
SEREN
DATHLU
ANGEL
BUGAIL
ANRHEG
BABAN
HEROD
PRESEB
DOETHION
JOSEFF
BETHLEHEM



*Hwyl fawr tan tro nesaf*
*Beti-Wyn*





**I orwedd mewn preseb rhoed Crëwr y byd,**
**nid oedd ar ei gyfer na gwely na chrud;**
**y sêr oedd yn syllu ar dlws faban Mair**
**yn cysgu yn dawel ar wely o wair.**



# PLANT YSGOL SUL ELIM YN NODI SUL Y COFIO



**GEORGE M Ll (MAITLAND LLOYD) DAVIES**
**1880 - 1949**
**Heddychwr**



75 mlynedd yn ôl i'r mis hwn, 16 Rhagfyr 1949, bu farw George M Ll Davies, yr heddychwr. Mor briodol yw cofio amdano'r mis hwn, dri chwarter canrif yn ddiweddarach, ar adeg pan ydym yn dathlu geni Iesu, Tywysog Tangnefedd.

Fe'i ganed 30 Ebrill 1880 yn Lerpwl, yn fab i John Davies, masnachwr te a'i wreiddiau yng Ngheredigion, a'i briod Gwen. Roedd yn ŵyr y pregethwr John Jones, Talysarn a brawd y cerddor a'r bardd John Glyn Davies.  Roedd y teulu'n gyfforddus ei fyd. Cefnder iddo oedd David Davies, Llandinam, diwydiannwr ac aelod seneddol.

Priododd Eleanor Leslie Royde Smith (1884-1973) yn 1916, chwaer y nofelydd Naomi Royde Smith, yn Finchley. Bu iddynt un plentyn, Jane Hedd.

Daeth yn glerc banc yn Lerpwl ac yn oruchwyliwr cangen yn Wrecsam. Yn ystod ei gyfnod yn Wrecsam bu'n swyddog yn y fyddin diriogaethol ond rhoddodd hyn heibio gan nad oedd grym militaraidd yn cydweddu â'i ymlyniad dwys a chynyddol wrth Gristnogaeth.

Derbyniodd swydd fel ysgrifennydd Ymddiriedolaeth Tai a Chynllunio Trefi Cymru.

Ymhen ychydig o amser, â'i fryd heddwch a chymod rhwng pobl yn gynyddol gryfach, daeth yn gyd-ysgrifennydd Cymdeithas y Cymod yn amser llawn a di-dâl, ac aeth i weithio i Bloomsbury, Llundain.

Roedd blynyddoedd y Rhyfel Mawr (1914-18) yn rhai anodd i heddychwyr.  Roedd George yn wrthwynebydd cydwybodol. Pregethai heddychiaeth a chafodd ei garcharu sawl tro yn ystod 1917-19 oherwydd ei safiad yn  erbyn rhyfel.

Wedi'r rhyfel, bu'n weithgar fel cymodwr. Bu'n ceisio ceisio cymod rhwng unigolion ac mewn diwydiant a gwleidyddiaeth. Ymunodd â'r Crynwyr oherwydd ei safiad ar heddychiaeth.

Yn 1923 cafodd ei ethol i'r Senedd fel heddychwr Cristionogol annibynnol ar gyfer etholaeth Prifysgol Cymru ond collodd y sedd yn yr etholiad canlynol ym 1924.

Wedi hynny, bu'n weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Nhywyn a Maethlon rhwng 1926 a 1930.

Gadawodd ar ôl cyfnod byr, ailymunodd â'r Crynwyr, a bu'n gweithio ym Mryn-mawr (Blaenau Gwent) mewn canolfan gymdeithasol dan nawdd y Crynwyr. Bu wedyn yn gweithio ymysg y di-waith y maes glo yn Ne Cymru. Ar ôl cyfnod byr yn Rhosllanerchrugog symudodd yn 1932 i Faes-yr-Haf, yn y Rhondda, gwersyll gwyliau a agorwyd gan y Crynwyr.

Ym 1946, a'i iechyd yn ei boeni, ymgartrefodd yn Nolwyddelan yng Ngogledd Cymru.

Dioddefai o iselder ysbryd ar hyd y rhan fwyaf o'i fywyd, er mai ychydig oedd yn gwybod hynny. Yn 1949, aeth i dderbyn triniaeth fel claf gwirfoddol yn Ysbyty Meddwl Gogledd Cymru, Dinbych lle bu farw trwy hunanladdiad, 16 Rhagfyr, 1949. Claddwyd ei weddillion yn Nolwyddelan, pentref gartref ei deulu.

Ysgrifennodd yn helaeth ar faterion yn ymwneud â heddwch rhyngwladol a chymod ar ffurf pamffledi, erthyglau a llythyrau. Ceir hanes ei genhadaeth yn ei gyfrolau Pererindod Heddwch (1945) a Pilgrimage of Peace (1950 - a gyhoeddwyd wedi iddo farw). Fel y dywed Y Bywgraffiadur Cymreig: 'Fe'i cysegrodd ei hun i'r ddelfryd y credai mor angerddol ynddi - cael cymod rhwng gwlad a gwlad, rhwng dyn a dyn'.

*Mae'r rhai sy'n hyrwyddo heddwch wedi eu bendithio'n fawr, oherwydd byddan nhw'n cael eu galw'n blant Duw, meddai'r Beibl (Mathew 5:9).* Diolch am George M Ll Davies, plentyn i Dduw, a

ymdrechodd mor ddiflinio i gadw fflam heddwch a thangnefedd ynghynn mewn byd mor gythryblus.




Gorffennwn gydag englyn o waith Tudur Dylan Jones sy'n dweud cymaint amdano:

**Yr oedd tangnefedd drwyddo - yn gyfan,**
**mewn gofid a chyffro,**
**llawn trugaredd ei hedd o,**
**a'r un hedd yn fwrn iddo.**

**CYMDEITHAS CAPELI GOFALAETH CAERFYRDDIN**
**FESTRI CAPEL HEOL AWST, CAERFYRDDIN**

**DYDD MAWRTH, 18 CHWEFROR 2025 - 2 PM**



**DARLITH – COFIO Y PARCHEDIG W RHYS NICHOLAS (1914-1996)**
***gyda***
**RICHARD EYNON HUWS**
**(Pont-goch, Aberystwyth a nai Mrs Betty a W Rhys Nicholas)**

**a**
**Cantorion Brynawel**
**(sef Helen Gibbon a'i ffrindiau yn dod i canu detholiad o emynau W Rhys Nicholas)**

**Croeso cynnes i bawb**




**PANED A SGWRS**



**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**Bore Iau 22 Ionawr 2025 am 10.30**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**





***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***
***Y PRIORDY***
***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

## Y GYMDEITHAS

***ER*** gwaethaf yr eira ar lawr, daeth yn agos at 35 o aelodau a ffrindiau ynghyd i'r Capel yn Amgueddfa Sir Gâr, Parc yr Esgob, Abergwili ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd o'r Gymdeithas.



Ein siaradwr gwadd oedd Gethin Thomas, a gafodd ei groesaswu'n gynnes iawn i'n plith gan Rhian Jones (P), sydd wedi 'nabod Gethin erioed gan i'r ddau ohonynt cael eu magu yn ardal LLanddarog a Phorth-y-rhyd. Cafwyd sgwrs gartrefol a hynod o ddiddordol gan Gethin wrth iddo olrhain y bobl a fu'n ddylanwad ar ei fywyd o'i fagwraeth, i'w addysg mewn ysgol a choleg, dylanwad capel ac Ysgol Sul ynghyd â'r Mudiad Ffermwyr Ifanc. Diolchwyd iddo gan ein Gweinidog am brynhawn a fydd yn aros yn y cof. Ymlwybrodd pawb drwy'r rhew i gludwch Cegin Stacey am baned cynnes a sgwrs! Prynhawn hyfryd yn wir. Diolch yn fawr iawn i Rhian Jones am drefnu.



**NODWCH Y DYDDIAD NEWYDD OS GWELWCH YN DDA**
**CYNGERDD AELWYD HAFODWENOG**
**YNG NGHAPEL HEOL AWST**
**NOS SUL, 6 EBRILL 2025 AM 6 YR HWYR**

**<u>COFIWCH DDILYN Y CALENDR ADFENT!!</u>**

**Pen-blwydd Hapus Rhian yn 80 oed**
**Oddi wrth aelodau’r Prirody**

Bu si ar led ‘n Priordy
bod rhywun yno’n dathlu
y ffigwr crwn
pwy yw, ni wn,
ai hwn, neu hon, sydd wrthi?

Bu trafod rhwng ffyddloniaid,
a *wattsap* diaconiaid,
dros *text* a *zoom*
a phob *chat room*,
a sasiwn Presbyteriaid!

Bu’r holi yn ddi-orffwys
ar lafar ac yn gyfrwys,
ro ni yn bô(r)d!
tan inni ddod
i’w drafod mewn cwrdd eglwys!

Bu sibrwd a dyfalu
ers Ionawr ‘*Twenty twenty’*,
ond daeth yr awr,
a gwyddom nawr
taw’n Rhian ni sy’n dathlu!

Wel Rhian fach, beth ddwedwn
mewn parti ar bnawn Sadw’n?
mae’n eitha clir,
rwy’n dweud y gwir
chi wir, yn un o filiwn!

Dymunaf fendith helaeth
ar rhan y ddiaconiaiaeth,
ar rhan pob un
o’r De i Lŷn,
sy’n perthyn i’r Ofalaeth.

Mwynhewch y p’nawn o ddathlu,
ein braint yw cael ei rannu,
mwynhewch y ddydd
ac o deulu’r Ffydd,
Pen-blwydd hapus i chi.

**Beti-Wyn**

# NADOLIG ALED JONES



**Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

Cyn cael plant, byddwn i'n hoffi mynd i redeg yn y 'Park Run' agosaf (sef Llyn Llech Owain), er mwyn teimlo'n llai euog am y gorfwyta a fyddai'n dilyn. Nawr, gydag Alys y ferch yn 4 a Tomi y mab yn 2, mae dydd Nadolig yn llawn cyffro yn ein tŷ ni. Bydda' i'n cadw at y traddodiad o fynd i Gapel Newydd, Llandeilo, ar gyfer Oedfa'r Bore a wedyn yn treulio gweddill y dydd yn bwyta, yn ceisio cadw'r mynydd o deganau dan reolaeth ac yn cwyno nad oes dim byd o werth ar y teledu.

**Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

**Cwrs Cyntaf**

Rhywbeth ysgafn. Dw i'n hoff iawn o eog wedi'i fygu.

**Ail Gwrs**

Cinio traddodiadol gyda digon o dwrci, stwffin a grefi. Ac mae'n destun trafod yn ein tŷ ni – dw i wastad yn mynnu cael 'pys slwtsh' gyda fy nghinio 'Dolig er bod Lisa'r wraig yn methu'n lân â deall pam. 'Does dim byd o'i le â phys slwtsh gyda'ch cinio 'Dolig, oes e?

**Trydydd Cwrs**

Saib yn gyntaf, a wedyn pwdin 'Dolig gyda chwstard tew tua chanol y prynhawn.

**Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?**

Mae hwn yn un anodd. Dw i ddim yn un sy'n mynnu llawer o anrhegion adeg y Nadolig, ond mae'n handi ychwanegu at y cyflenwad o sanau ar gyfer y flwyddyn sydd ar droed. Hawdd fy nghadw i'n hapus, er, bydde Lisa yn anghytuno!

**Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?**

Fy hoff garol, heb os nac oni bai, yw O Ddwyfol Nos. Mae'n glasur o garol sy'n adeiladu ac yn cyrraedd crescendo pwerus – bydda' i'n aml yn chwarae hon yn y car adeg y Nadolig.

## EDNA MORRIS (E)….

## NADOLIG GWAHANOL



***AM*** dros ugain mlynedd bellach dw i wedi treulio'r Nadolig yn Sbaen. Mae'n brofiad tra gwahanol i'r hyn a brofais yn ystod tyfu yn siop bentref Bryn Stores, Brechfa pan oedd y Nadolig yn gyfnod prysur tu hwnt- gwerthu twrcïod a ffesantod a fagwyd a llysiau a dyfwyd adre am fod cinio Nadolig bryd hynny yn ginio sbesial a chwilio'r darnau chwe cheiniog yn y pwdin yn hwyl.




Roscon de Rayes yw pwdin Nadolig y Sbaenwyr, torth gron wedi'i haddurno â ffrwythau sych lliwgar, a dyna fydda i'n ei fwynhau yn y gwesty ar y noson cyn y Nadolig, sef yr adeg mae'r Sbaenwyr yn gwledda a dathlu.  Erbyn canol nos byddant yn heidio i'r Eglwysi Catholig lleol.



Cynulleidfa fach dw i'n ei chofio yng nghapel Bethania, Brechfa a dim ond Dilwyn Glasfryn a finne yn blant yno gan fod teuluoedd y mwyafrif o blant Brechfa yn Eglwyswyr. Gwasanaeth tebyg i'r arfer fydde yng ngofal y Parch D. J. Walters, ond byddem yn canu carolau.



O gael fy magu mewn siop roeddem yn gwybod bob blwyddyn beth i'w ddisgwyl yn fy hosan neu'n hytrach hosan Tad-cu - gan mai dyna oedd hi - hosan a wisgai Tad-cu i hela cwningod. Ynddi bydde amrywiaeth o bethau fyddai ar ôl heb eu gwerthu - pethe fel ffigys, datys, oren ac yna focs o Maltesers ar y top. Ar Ionawr 6ed. sef y ddeuddegfed noson, bydd plant Sbaen yn derbyn eu hanrhegion.

Yna, gyda'r nos, bydd y Tri Brenin Doeth ar gefn ceffylau yn dod â'r



anrhegion i bob tref, gorymdaith yn dilyn a danteithion yn cael eu taflu i bob cyfeiriad. Naws carnifal go Iawn.

Dim ond ar ddydd Nadolig y byddai tân yn cael ei gynnau yn y parlwr yn Bryn Stores ac ar ôl cinio byddem yn eistedd gyda theulu agos - heb unrhyw addurniadau. Bydd yn Sbaenwyr yn addurno eu hardaloedd allanol yn rhyfeddol a goleuadau lliwgar ymhobman ac ar ddydd Nadolig gwelir torfeydd o deuluoedd yn cerdded ar lan y mŏr yn mwynhau'r traethau a'r wlad.



***RWY'N*** falch i allu dweud bod y Capel wedi bod yn rhan o fy mywyd ar hyd fy oes ac unwaith eto eleni edrychaf ymlaen at ymweld â Belén Vivienne de Beas ger Huelva ble mae yna hen adeilad sy wedi cael ei drawsnewid yn gyfan gwbwl i olygfa'r Geni. I mi, bydd cyfnod y Nadolig yn cychwyn bryd hynny ac fe ddaw cysur a llu o atgofion yn ôl am Nadoligau Brechfa a Chaerfyrddin, a'r dramâu Geni niferus y cefais i a'r plant y cyfle i'w mwynhau.



## PEN-BLWYDD ARBENNIG




**Dymuniadau gorau i Mari Jones (P) Erw Hir ar ei phen-blwydd yn 90 oed. Pleser gan ein gweinidog oedd ei chyfarch ar ran yr eglwys**

## CYMDEITHAS CHWIORYDD ELIM

| Dyddiad | Diwrnod | Amser | Lle | Digwyddiad |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 21.01.2025 | Mawrth | 2 | Festri Elim | Peter Hughes Griffiths |

| CWIS Y GWYRTHIAU - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Meseia | 6 | Bachgen |
| 2 | wraig | 7 | Iesu |
| 3 | Glân | 8 | wyryf |
| 4 | esiampl | 9 | Immanuel |
| 5 | freuddwyd | 10 | ddeffrodd |

# NADOLIG ELIN FFLUR



**Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

*Y Nadolig ydi fy hoff amser o'r flwyddyn. Mae cael addurno'r tŷ yn dod â chymaint o bleser i mi. Yr adeg yma nes i briodi, dyna brawf o fy ngharIad at y cyfnod! Dw i'n hoffi bod adra ar ddydd Nadolig a threulio'r diwrnod gyda'r teulu. Diwrnod digon syml mewn gwirionedd, digon o fwyd, cwmni da a ffilmiau da ar y sgrîn fach! Rydym yn lwcus iawn fod teulu'r ddwy ochor yn byw yn agos iawn ac felly yn medru ymweld â phawb. Ers i Ani fach gyrraedd y byd mae'r Nadolig yn fwy hudol nag erioed. Mi fydd eleni yn llawer o hwyl, mae hi newydd droi'n 2 oed ac yn deall mwy am bopeth*

**Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

**Cwrs Cyntaf**

*Yn syth o'r 70'au ond does dim curo arno i mi - corgimwch mewn saws marie rose efo tafell o fara ffresh*!

**Ail Gwrs**

*Twrci a'r trimins i gyd! Rhaid cael y sosej gyda'r bacwn a llwyaid o 'bread sauce' i orffen y cwbl!*

**Trydydd Cwrs**

Pwdin Dolig a menyn toddi (white sauce) efo joch go lew o frandi!

**Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?**

*Wna i fyth anghofio pan o'n i'n ferch fach gwylio 'Cwm rhyd y chwadods' ar y teledu Noswyl Nadolig. Roeddwn i wedi gwirioni â chaneuon gwych Delwyn Siôn i gyd. Bore wedyn, roedd Siôn Corn wedi dod â'r casét i mi o'r caneuon i gyd! Wel am gyffro! Dyna'r foment dw i'n cofio hud a lledrith y Nadolig fwyaf! Sut yn y byd nath o sortio hynny mor sydyn meddech chi?! Erbyn hyn mae fy merch fach yn caru'r caneuon hefyd ac yn gwylio'r union raglen honno welis i ar Noswyl Nadolig ar You Tube!*

**Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?**

*Mae 'na ormod ohonynt!! Ond oes rhaid dewis un, rwy'n hoff iawn o 'Ganol gaeaf noethlwm'. Mae'r melodi'n bryferth iawn a'r geiriau mor hyfryd a theimladwy. Rwyf wedi ei chanu droeon hefyd mewn cyngherddau Nadolig ac mae pob cynulledifa i weld yn ei mwynhau.*

# RHWYDWAITH

***EIN*** cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Peter Hughes Griffiths (P). Cofion cynnes atoch i gyd.



Bu Heno ar S4C yn edrych ymlaen at y ffilm newydd Paddington in Peru (y drydedd ffilm Paddington) a chafwyd sgwrs fer rhwng Geraint Pennant ac Iwan Prys Reynolds, un o blant y Priordy ac aelod o griw camera ffilmiau Paddington sydd wedi gweithio ar y tair ffilm sydd yn y gyfres hyd yma. Cafodd ein Gweinidog y fraint o weld y première yn Llundain yn ddiweddar!



Bu Ysgol y Strade yn cyflwyno sioe newydd, Yma o Hyd, yn dathlu hanes a cherddoriaeth y gwladgarwr eiconig Dafydd Iwan. Diolch i Tudur Dylan Jones (P) am sgript arbennig iawn

Bu Huw Michael (P) yn siarad ar Radio Cymru am y cynnydd ym mhris tanwydd.

Mae'n bwysig cadw'n trysoryddion yn hapus! Diolch i Tom Defis (E), Adrian Evans (P) ac Alun Williams (HA) am eu gwaith cydwybodol. Mae'n adeg cau'r llyfrau am y flwyddyn yn y tair eglwys. Felly cofiwch amdanynt, os gwelwch yn dda. Gwerthfawrogir pob cyfraniad

Mae diaconiaid newydd wedi'u hethol yn Elim. Byddant yn cael eu hurddo yn yr oedfa Gymun fore Sul cyntaf Rhagfyr, sef Anona Davies, Alison Evans, Nia Evans, Bet Jones ac Ann Walters. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Mae hi bob amser yn braf croesawu aelodau newydd i'n capeli a'r rhai diweddaraf yw Mary Williams (E) a Pat Jones (P). Pob dymuniad da iddynt.

LLongyfarchiadau i:



- Sara Wyn Davies (P) a Craig Barnett ar enedigaeth Harri Wyn Barnett ar 28 Hydref. Wyr cyntaf i Jan Davies a'i phriod Stephen.

- Hanna a Gareth (o Ysgol Sul Elim) ar enedigaeth Gwenno, chwaer fach newydd i Nansi



- Catrin Wyn (P) a Brieg Dafydd ar eu dyweddïad

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ionawr i'n Gweinidog neu Alun Charles**

## CYDYMDEIMLAD

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â Peter a Meinir Hughes Griffiths ar golli chwaer Meinir, sef Bronwen Wilson Jones, gynt o Ruthun, ar 5 Tachwedd 2024. Meddyliwn am ei phlant a'r teulu cyfan yn eu hiraeth.**

## Diolch i'n Gwesteion Arbennig

### Catrin Finch

Telynores, cyfansoddwr a cherddor yw Catrin Finch. Daw'n wreiddiol o Lannon yng Ngheredigion. Yn enw adnabyddus yn rhyngwladol, mae hi wedi canu'r delyn ar draws y byd, ac yn gerddor Cymreig rhagorol.

### Elin Fflur

Cantores, cyfansoddwraig a chyflwynydd teledu yw Elin Fflur. Fe'i magwyd yn Llanfairpwll ar Ynys Môn. Enillodd Cân i Gymru yn 2002, gan ddilyn ei mam yn y gamp honno. Mae'n wyneb cyfarwydd ar Heno ar S4C a bellach yn un o gyflwynwyr Cân i Gymru.

### Aled Jones

Prif Weithredwr Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yw Aled Jones. Fe'i magwyd ar fferm fynydd y teulu yng Nghwrt-y-cadno. Mae'n byw yn Llandeilo ac fe gyd-sefydlodd Diod, siop goffi a gwin, yn y dref honno yn 2021.

**Gwerthfawrogwn fod Catrin, Elin ac Aled yng nghanol eu prysurdeb wedi rhoi o'u hamser i'n helpu a dymunwn yn dda iddynt dros y Nadolig.**

## CASGLIAD Y PRIORDY

**Dydd Sul 8 Rhagfyr 2024**

**Bydd y casgliad rhydd yn mynd at yr Ysgol Sul i hyrwyddo'n gweithgarwch gyda'r to iau**

**YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO MYRDDIN**
**Cyngerdd Nadolig**
**17 Rhagfyr 2024 -6.30**
**Capel Heol Awst**

# DYLETSWYDDAU

## ROTA YMWELWYR
## ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY

*TACHWEDD / RHAGFYR*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| E | Aelodau | HA | Aelodau | P | Catrin H Jones, Betsan James, Eirlys Davies, Margaret Ll Evans |

*IONAWR / CHWEFROR*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| E | Aelodau | HA | Aelodau | P | Huw a Rhyswen Michael<br>Elinor Wyn a Syfi Rolant |

## HEOL AWST
## Dyletswyddau'r Sul

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 1 | | Ionawr | 5 | |
| | 8 | Nigel George<br>Rhian Jones | | 12 | Phil Hopley<br>Helen Jones |
| | 15 | Phil Hopley | | 19 | |
| | 22 | | | 26 | Phil Hopley<br>Helen Jones |
| | 29 | Joan Thomas<br>Roy James | | | |

## CAPEL ELIM
## BLODAU

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 1 | B | Ann Walters | Ionawr | 5 | B | Nia Evans |
| | 8 | B | Ann Walters | | 26 | B | Nia Evans |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 1 | Bore | Alison Evans |
| Ionawr | 5 | Bore | Carwen Davies |

## PRIORDY
## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Rhagfyr | | Ionawr | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Dennis Jones | Huw Michael | Alun Charles | Adrian Evans |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr** | **1** | | **Ionawr** | **5** | Alison Parsons |
| | **8** | Oedfa Nadolig | | **12** | |
| | **15** | | | **19** | Ann Bowyer |
| | **22** | | | **26** | |
| | **29** | | | | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhagfyr** | **1** | **Bore** | Catrin Mair Jones ac Alison Parsons |
| **Ionawr** | **5** | **Bore** | Alison Parsons a Ffion Parsons |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr** | **1** | Meinir Jones | **Ionawr** | **5** | Teuluoedd Cana ac eraill |
| | **8** | Y Plant | | **12** | Oedfa Deulu |
| | **15** | Heol Awst - Aelodau | | **19** | Elis Jones |
| | **22** | Priordy - Alun Charles | | **26** | Heledd Jones |
| | **29** | Heol Awst - Undebol | | | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhagfyr** | Carys Morgans | **Ionawr** | Meleri Llwyd O'Leary |

**CWRDD CHWARTER**
**ELIM, FFYNNON-DDRAIN**



**Dydd Iau, 13 Mawrth 2025**

Y Gynhadledd am 10.30 a Chyfarfod y Prynhawn am 1.30



Bydd Cyfarfod y Prynhawn yng ngofal Pwyllgor Cenhadol y Cyfundeb. Y gwestai fydd Y Parchedig Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyhoeddadau'r Gair sy'n rhan o'r Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru

Trefnir lluniaeth ysgafn rhwng y cyfarfodydd. Croeso cynnes i bawb

**CASGLIAD ELIM**

**Dydd Sul 8 Rhagfyr 2024**
**Casgliad y Gwasanaeth Nadolig yn mynd at Apêl Bandi**

**Y DDIWEDDAR MRS ANNIE REES**

Coffawn gyda diolchgarwch y ddiweddar Mrs Annie Rees a fu farw’n dawel yn ei chartref, Fountain Hall Villa ar 6 Tachwedd 2024.

Yn enedigol o Lanpumsaint, ymgartrefodd yng nghartref ei phriod, y diweddar David Rees, yn Gellilednais, Upland Arms lle buont yn aelodau ffyddlon o eglwys Rama, Llandyfaelog.

Wedi symud i’r dref, daethant â’u haelodaeth i Heol Awst, a bu Mrs Rees yn hynod o ffyddlon ac yn bresenoldeb cyson yn yr oedfaon. Er na fedrai fynychu’r oedfaon dros y blynyddoedd diwethaf, roedd ei diddordeb ym mywyd yr eglwys yn fawr, ac roedd wrth ei bodd yn darllen papur misol newydd yr Ofalaeth.

Roedd gan Annie Rees ddiddordebau amrywiol a byddai ar ben ei digon yn y gegin ac yn yr ardd. Fe’i gwelwyd yn aml yn y dref ar ei gorchwyl dyddiol o gasglu’r Western Mail!

Ond ei phrif ddileit mewn bywyd oedd ei chartref. Rhannodd yr aelwyd â Caroline a’i phriod Gethin, a bu’r uned deuluol yn Fountain Hall Villa yn un clos iawn.

Daeth y ffyddloniaid ynghyd i Gapel Heol Awst fore Gwener, 22 Tachwedd i oedfa i ddiolch am ei bywyd. Yn dilyn yr oedfa, ymlwybrodd y teulu yn dawel fach i fynwent y dref ble rhoddwyd Mrs Anne Rees i orwedd gyda’i diweddar briod. Roedd yn fore oer ond heulog o aeaf, ond gyda chalonnau cynnes fe gofiwn a diolchwn am y wraig ffyddlon a hynaws hon.

Gwyddom y bydd yr hiraeth ar ei hôl yn fawr ar yr aelwyd.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Caroline a Gethin gan ddiiolch iddynt am ofalu mor dyner am eu mam.

**Beti-Wyn James**

# SULIADUR YR OFALAETH



## RHAGFYR 2024 / IONAWR 2025

| | **10.00** | **11.30** | **3.00** | **5.00**<br>**Oni nodir yn wahanol** |
|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr 1** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim ©<br>Gweinidog | | Priordy<br>Oedfa Nadolig y Bobl Ifanc dan olau cannwyll.<br>Gweinidog |
| **Rhagfyr 8** | Priordy<br>Oedfa Nadolig<br>Gweinidog | | Elim (a HA)<br>Oedfa Nadolig<br>Gweinidog | Heol Awst<br>Plygain Merched y Wawr 7.30 |
| **Rhagfyr 15** | Heol Awst©<br>Oedfa Nadolig<br>(i E, HA a P)<br>Gweinidog | | | |
| **Rhagfyr 22** | Priordy<br>Oedfa Nadolig<br>(i E, HA a P)<br>Gweinidog | | | Bancyfelin<br>Gorymdaith ac Oedfa Nadolig i'r Ofalaeth gyfan am 6.00<br>Gweinidog |
| **Rhagfyr 25**<br>Bore Nadolig | Priordy 9.00<br>Oedfa i'r Ofalaeth<br>Gweinidog | | | |
| **Rhagfyr 29** | Heol Awst<br>i Eglwysi'r Dref<br>Gweinidog | | | |
| | | | | |
| **Ionawr 5** | Priordy ©<br>(+ Cana a Bancyfelin)<br>Gweinidog | Elim (a HA)©<br>Gweinidog | | |
| **Ionawr 12** | Priordy – *OD*<br>Gweinidog | | Heol Awst<br>(ac Elim)©<br>Gweinidog | |
| **Ionawr 19** | Priordy<br>Gethin Rhys | Elim (a HA)<br>Tudur Dylan | | |
| **Ionawr 26** | Heol Awst<br>(i E, HA a P)<br>Gweinidog | | | |

## AMSERLEN YR YSGOL SUL
## RHAGFYR 2024 / IONAWR 2025



**Elim**

Ionawr 12 – Ysgol Sul
Ionawr 19 – Ysgol Sul
Ionawr 26 – Ysgol Sul


**Y Priordy**

Ionawr 12 – Oedfa Deulu
Ionawr 19 – Ysgol Sul a PIP
Ionawr 26 – Ysgol Sul



## CYFARFOD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY

**Nos Lun, 17 Chwefror 2025 – Festri'r Priordy – 7.30**



**Maen nhw'n eu dysgu i ddarllen papur yr ofalaeth yn ifanc iawn yn Elim!!**

**OEDFAON NADOLIG YR OFALAETH**
**(*nodwch bod rhai newidiadau i'r drefn wreiddiol)***

**Y Priordy**
***Nos Sul, 1 Rhagfyr am 5.00***
Oedfa dan olau cannwyll yng nghwmni Pobl Ifanc Y Priordy
***Bore Sul 8 Rhagfyr am 10.00***
Oedfa Nadolig Y Priordy yng nghwmni'r Ysgol Sul ac eraill
Paned i ddilyn a pharti'r Ysgol Sul
***Bore Sul 22 Rhagfyr***
Oedfa Llith a Charol y Y Priordy am 10.00
i'r Ofalaeth gyfan. Paned i ddilyn.

**Elim, Ffynnon-ddrain**
***P'nawn Sul 8 Rhagfyr am 3.00***
*Oedfa Nadolig* yng nghwmni plant yr Ysgol Sul ac eraill
Parti i ddilyn

**Y Blygain**
***Nos Sul 8 Rhagfyr am 7.30***
yng Nghapel Heol Awst

**Heol Awst**
***Bore Sul, 15 Rhagfyr am 10.00***
**'**Awn i Fethlem…'
Oedfa Nadolig
gydag Elim a'r Priordy yn ymuno
Paned a mins pei i ddilyn

**Cana**
***Pnawn Sul 15 Rhagyfr am 1.30***
Oedfa Nadolig yng nghwmni plant yr Ysgol Sul
Parti i ddilyn

**Bancyfelin**
***Nos Sul, 22 Rhagfyr am 6.00***
Gorymdaith y Nadolig drwy'r pentref
Oedfa, paned a mins pei i ddilyn yn y capel

**Noswyl Nadolig**
Epilog dros Zoom am 9.00

**Bore Nadolig**
Oedfa Deulu fer yn Y Priordy am 9.00